**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 06-00(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 27 Hydref 2000 |
| **Amser:** | 10.00am tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Ann Jones, Cadeirydd | Dyffryn Clwyd |
| Alison Halford | Delyn |
| Gareth Jones | Conwy |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| John Marek | Wrecsam |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| *Yn bresennol* | |
| David Adamson | Y Gangen Cynhwysiant Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| *Pobl Wrecsam mewn Cymunedau* | |
| Paul Roberts | Prif Swyddog Datblygu Economaidd |
| Dr Simon Pemberton | Rheolwr Mentrau'r Ardal |
| Rebecca Perry | Cyd-drefnydd Prosiectau |
| *Strategaeth Gorllewin a De-orllewin y Rhyl* | |
| John Killion | Arweinydd Prosiect, Asiantaeth Gymunedol |
| *Prosiect Integredig Gwledig Capel Curig* | |
| Shân Ashton | Uned Datblygu Cymunedol, Prifysgol Bangor |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Rhagarweiniad ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru am eu lletygarwch. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Ieuan Wyn Jones, Karen Sinclair a Rod Richards.

**Eitem 1: Adrodd yn ôl o'r cyfarfod blaenorol -** NWR 06-00(p1), NWR 06-00(p2)

1.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor iddo gytuno yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf fod llythyr i'w anfon at Brif Weinidog Cymru yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol a godwyd gan y rhai a fu'n cymryd rhan yn y cyfarfod ym Mangor ar Amcan 1. Yr oedd y Prif Ysgrifennydd wedi ymateb a darparwyd copi o'r llythyr yn atodiad 2 at bapur NWR 06-00(p1).

1.2 Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Ysgrifennydd Cyllid yngln â throseddu ac anhrefn. Darparwyd copi o ateb yr Ysgrifennydd Cyllid yn atodiad 3 at bapur NWR 06-00(p2) ac yr oedd y rhestr o gynlluniau cyllido seiliedig ar leihau torcyfraith y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr yn atodiad 4. Croesawyd y rhestr a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd

ysgrifennu eto at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ddwyn y rhestr i sylw'r Pwyllgor hwnnw.

*Pwynt gweithredu*

1.3 Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i dynnu sylw at y rhestr o gynlluniau cyllido sydd a wnelont â lleihau torcyfraith **- y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth** (ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 1)

**Eitem 2: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf -** NWR 06-00(p3)

2.1 Dywedodd y Cadeirydd i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi papur ymgynghorol ym mis Mai **- 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig** '. Nodai'r papur weledigaeth y Cynulliad ar gyfer dyfodol cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a sut y gellir eu hadfywio. Yr oedd y cyfarfod hwn yn gyfle i'r rheini sydd â diddordeb mewn adfywio cymunedol i oleuo'r broses hon.

2.2 Cyflwynodd **David Adamson** y papur (NWR 06-00(p3)) a dynnai sylw at y pwyntiau allweddol.

2.3 Eglurodd **Paul Roberts** yn fyr sut yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrin ag adfywio cymunedau. Rhoddodd Simon Pemberton fwy o fanylion am y prosiect Pobl mewn Cymunedau sydd wedi'i seilio ar ystadau Brynteg a Southsea. Y prif wersi a ddysgwyd oedd ei bod yn cymryd amser i sefydlu partneriaethau effeithiol a bod cyllido hirdymor yn hanfodol. Mae copi o'r cyflwyniad ynghlwm yn atodiad 2.

2.4 Rhoddodd **John Killion** gyflwyniad ar Strategaeth Gorllewin a De-orllewin y Rhyl. Yr oedd ward Gorllewin y Rhyl yn un o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac wynebai ystod o broblemau. Yr oedd grwpiau cymuned yn gweithio i roi sylw i lawer o'r rhain drwy ystod o brosiectau. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd cyllido hirdymor, atebion o du'r gymuned ei hun a chefnogaeth yr asiantaethau statudol.

2.5 Rhoddodd **Shân Ashton** gyflwyniad ar Brosiect Integredig Gwledig Capel Curig. Yr oedd y problemau yn y gymuned wledig hon yn ymwneud yn bennaf â mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a Thai. Yr oedd y gymuned yn rhoi sylw i'r rhain drwy brosiectau a fwriadwyd i greu swyddi ar gyfer pobl leol gan gynnwys mynydda, arallgyfeirio gwledig a chanolfannau dehongli hanesyddol ac amgylcheddol a wnâi'r defnydd gorau o'r amgylchedd ac adnoddau lleol. Yr oedd yn anodd yn aml cysylltu â'r person iawn mewn asiantaethau statudol ac ennyn ei ddiddordeb. Mae ardaloedd gwledig yn dioddef llawer o broblemau tebyg i ardaloedd trefol ond fod angen atebion gwahanol.

2.6 Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r llawr wedyn.

2.7 Gofynnodd y **Cynghorydd Darren Miller** , Cyngor Tref Tywyn a oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi cymorth tuag at Brosiect Gorllewin a De-orllewin y Rhyl. Dywedodd nad oedd Cyngor Tref Tywyn wedi derbyn fawr o gymorth gan y Cyngor Sir ac yr oedd yn bryderus yngln ag effaith bosibl ceisiadau am gyllid.

2.8 Dywedodd y **Cynghorydd Bryan Evans** , Cyngor Gwynedd fod penrhyn Lln yn dioddef problemau tebyg i Gapel Curig. Yr oedd amaethyddiaeth yn dioddef a thwristiaeth yn gwanhau. Yr oedd gorsafoedd petrol a swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig yn cau. Yr oedd y seilwaith ffyrdd mewn cyflwr gwael ac nid oedd unrhyw obaith o ddenu diwydiant i'r ardal.

2.9 Yr oedd **Emlyn Williams** , Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi paratoi papur ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor ar dargedu datblygu economaidd at gymunedau. Mae copi ynghlwm yn atodiad 3. Yr oedd yn anodd cyrchu at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac yr oedd angen i'r Cynulliad edrych ar dargedu mesurau adfywio cymunedol.

2.10 Dywedodd y **Cynghorydd Peter Douglas** , De-orllewin y Rhyl, Cyngor Sir Ddinbych mai'r rhwystr mwyaf i adfywio cymunedol oedd agwedd awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol sy'n cyflwyno gwasanaethau. Rhaid oedd i'r cyrff hynny ymateb mwy i anghenion cymunedau.

2.11 Dywedodd y **Cynghorydd Pat Larsen** , Cyngor Gwynedd fod rhai pentrefi gwledig yn marw wrth i bobl ifanc symud i ffwrdd am na allent gael tai na swyddi yn lleol. Nid oedd unrhyw dai newydd yn cael eu codi. Caewyd yr ysgol gynradd leol yn Ninorwig ac anfynych iawn oedd y gwasanaethau bws. Yr oedd Cyngor Gwynedd yn datblygu ei strategaeth gymunedol a rhaid oddi iddo ganfod atebion i'r materion hyn sy'n destun pryder.

2.12 Dywedodd **G Francis Roberts** , Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych fod angen arwydd clir bod y Cynulliad yn mynd i gymryd golwg fwy strategol ar yr holl gwestiwn o gyllido'r gwahanol raglenni. Yr oedd yna ar hyn o bryd ragor na 60 o ffrydiau cyllido ar gyfer Adfywio Cymunedol ac yr oedd angen eu targedu a'u rhesymoli. Yr oedd disgwyl i'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol ymgymryd â'u rôl fel corff canoli ac ymbarél ac yr oedd y Cynulliad hefyd am iddynt wneud gwaith ymgynghori gyda grwpiau 'anodd i'w cyrraedd'. Fodd bynnag, nid oedd y Cynulliad yn darparu adnoddau digonol iddynt i gyflawni eu cyfrifoldebau a rhaid oedd rhoi sylw i fater cyllido'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

2.13 Dywedodd **Janet Williams** , Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cangen Wrecsam fod yna etifeddiaeth o iechyd gwael oddi wrth ddiwydiannau sy'n llygru yn ardal Wrecsam. Am eu bod yn dod â swyddi newydd gyda nhw, yr oedd diwydiannau newydd sy'n llygru yn cael eu cyfeirio i gymunedau difreintiedig. Rhaid oedd cydnabod yr effaith ar iechyd a rhoi sylw i hynny.

2.14 Croesawai **Edith Thomas** , Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gynghori De Sir Ddinbych y cyllid ar gyfer adfywio cymunedol ond dywedodd na allai awdurdodau lleol ymdopi â'r beichiau gwaith sydd ganddynt ar hyn o bryd. Yn Sir Ddinbych dim ond yn awr yr oedd ceisiadau mis Mai am fudd-dâl tai yn cael sylw. Gellid darparu mwy o enghreifftiau.

2.15 Yr oedd **John Talbot** yn bryderus yngln â'r diffyg cyswllt rhwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a datblygu economaidd. Canlyniad methiant economaidd oedd problemau cymdeithasol ac yr oedd angen cysylltiad polisi rhwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a strategaethau economaidd ehangach.

2.16 Croesawai **Barbara Roberts** , Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint y Fenter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ond dywedodd fod angen i'r broses ymgynghori fod yn fwy ystyrlon. Yr oedd yr amser a ganiatawyd i ymateb yn rhy fyr i gyrff gwirfoddol ar yr oedd yna ormod o strategaethau a ffynonellau cyllido yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Yr oedd ffurflenni ymgeisio yn rhy gymhleth a llawn jargon. Canmolodd y cyngor a'r gefnogaeth a ddarperir gan staff Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint ond dywedodd fod yna rhy ychydig ohonynt. Ychwanegodd fod angen ystyried anghenion cymunedau sy'n rhannu'r un buddiannau yn ogystal â chymunedau a ddiffinnir yn ddaearyddol.

2.17 Dywedodd y **Cynghorydd June Marshall** , Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Adfywio Bangor mai un o'r prif negeseuon o'r cyfarfod oedd bod yn rhaid i bobl leol fod â rhan mewn adfywio cymunedol. Yr oedd y Bartneriaeth wedi gwneud cais am grant Amcan 1 ond yr oedd y ffurflen ymgeisio yn gymhleth ac yn llawn jargon. O ganlyniad nid oedd yn hawdd i bobl gyffredin fanteisio ar y broses gyllido.

2.18 Cyfeiriodd y **Cynghorydd Meirick Davies** , Cyngor Sir Ddinbych at y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu unedol a dywedodd fod yn rhaid darparu tai mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd y gost o wneud cais cynllunio yn rhy uchel a dylai'r Cynulliad ystyried a oedd y taliadau yn deg. Ychwanegodd y dylai cyllid Amcan 1 fod ar gael er mwyn ailagor siopau gwledig a oedd wedi cau a bod yn rhaid darparu cyllid i brosiectau cymunedol ar sail hirdymor.

2.19 Dywedodd **Brian Thirsk** , Sylfaen fod gan gymunedau ddyheadau ond heb y sgiliau angenrheidiol ni allent gael gafael ar gyllid.

2.20 Dywedodd **Ron Tyrer** , Cyngor Tref Caergybi fod rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i'w cael yng Nghaergybi. Yr oedd yn wrthun bod y fath dlodi yn bod mewn gwlad gyfoethog fel Prydain. Yr oedd gormod o arian yn cael ei wario ar fewnfuddsoddi. Yr oedd angen strategaeth i ddynodi cymunedau difreintiedig ac angen bod cyllid ar gael i gynrychiolwyr etholedig ar gynghorau sir a thref gan mai nhw sy'n deall problemau eu cymunedau orau.

2.21 Dywedodd y **Cynghorydd Selwyn Roberts** , Cyngor Sir y Fflint, fod dros £90 miliwn yn mynd i chwaraeon yng Nghymru ond mai ychydig iawn a âi i glybiau chwaraeon mewn cymunedau difreintiedig. Yr oedd yn ymwneud â chlwb criced lleol a gofynnodd sut y gellid targedu cyllid at glybiau o'r fath.

2.22 Dywedodd y **Cynghorydd Ian Roberts** , Cyngor Sir y Fflint fod arian wedi'i wario ar adfywio cymunedol yn ei ward. Yr oedd y datblygu cymunedol yn mynd yn dda ond golygai diffyg cyllid bod swydd gweithiwr datblygu cymunedol wedi'i cholli. Bellach yr oedd angen gwario arian ar gynnal a chadw gwaith amgylcheddol a gwblhawyd rai blynyddoedd yn ôl ond yr oedd asesiad gwario safonol Cyngor Sir y Fflint wedi ei ostwng.

2.23 Dywedodd **Rhiannon Efans** , cynghorydd cymuned o Fethesda fod cyflogau yn ei hardal hi yn isel. Yr oedd pobl o'r tu allan ar gyflogau uchel yn symud i'r gymuned ond ni ddeuent ag unrhyw fanteision i bobl leol. Rhaid oedd gwella'r cyflogau ar gyfer pobl leol er mwyn i'r gymuned allu ffynnu. Apeliodd hefyd am i'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio pa bryd bynnag y mae hynny'n bosibl.

2.24 Dywedodd **Nigel Horricks** , Rhwydwaith Colegau Lleol Cymru, nad yw cyrff gwirfoddol wedi'u cynrychioli ar y Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Yr oedd gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae yn meithrin gallu ac yr oedd angen cyllid ar gyfer hyfforddiant. Heb gynrychiolaeth ni allai'r sector gwirfoddol ddylanwadu ar y broses gynllunio. Ymatebodd George xx ei fod ef yn cynrychioli'r sector gwirfoddol ar Gonsortiwm Cymunedol Addysg a Hyfforddiant Conwy a Dinbych.

2.25 Dywedodd **Sion Aled Owen** , Cytun iddo fod yn falch o glywed am y pwyslais yn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar ansawdd bywyd a meithrin hunanhyder unigolion a chymunedau. Yr oedd yr Eglwysi yng Nghymru am wneud yn sir bod anghenion ysbrydol cymunedau yn cael eu diwallu a dylid eu cynnwys mewn partneriaethau cymunedol.

2.26 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ymateb wedyn i'r materion a godwyd. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- rhaid oedd i'r Cynulliad gydnabod bod yn rhaid galluogi cymunedau i helpu eu hunain. Yr oedd angen hefyd iddo sicrhau bod nawdd yn cyrraedd y fan lle gellid ei ddefnyddio i fod o fudd i gymunedau. Dylai'r Cynulliad ddefnyddio ei bwerau i sicrhau bod y system gynllunio'n cael ei defnyddio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd;
- hanfod Rhoi Cymunedau'n Gyntaf oedd grymuso a galluogi cymunedau i ganfod eu hatebion eu hunain i'w problemau. Nid oedd y problemau sy'n wynebu cymunedau trefol a gwledig yn annhebyg i'w gilydd. Dylid annog cymunedau i nodi eu hanghenion eu hunain a rhaid oedd i'r Cynulliad ac asiantaethau wrando ar gymunedau a'u cefnogi;
- yr oedd yn amlwg nad yw cymunedau yn cyfateb i ffiniau wardiau na ffiniau gweinyddol eraill. Byddai'r meithrin gallu sydd ar y gweill mewn cymunedau yn holl bwysig i Amcan 1. Yr oedd angen darparu cyllid i alluogi cymunedau i ddatblygu eu sgiliau gyda help gan asiantaethau. Yr oedd angen i'r Cynulliad ddod â'i strategaethau amrywiol at ei gilydd;
- achosir llawer o anghydraddoldeb gan dlodi gan gynnwys mynediad at ofal iechyd ac addysg. Byddai Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn gwneud cyfraniad i'w groesawu ond rhaid gwreiddio mesurau ymladd tlodi mewn rhaglenni cyllido prif ffrwd;
- nid oedd y system gyllido yn iawn. Yr oedd gormod o gelciau o arian a rhaid oedd i'r Cynulliad ganfod ffordd o symleiddio'r ffrydiau cyllido a mynediad cymunedau iddynt;
- y cymunedau a oedd yn symud yn eu blaenau oedd y rheini a weithiai gyda'i gilydd i ganfod atebion i'w problemau. Yr oedd hynny yn ffordd gynaliadwy o weithredu a gellid ei chynorthwyo gyda symiau cymharol fach o arian a ddarperir yn gyflym, pan fydd eu hangen fwyaf;
- clywodd y Pwyllgor lawer iawn o siarad di-flewyn-ar-dafod yn y cyfarfod a rhaid oedd harneisio'r egni yn y rhwystredigaeth waelodol er budd y cymunedau. Yr oedd pobl yn sylweddoli y gallent wella eu cymunedau er budd cenedlaethau'r dyfodol, pe gwnaent yr ymdrech gyda chefnogaeth briodol. Yn wahanol i Loegr, nid oedd dim yn y dogfennau am rôl yr Eglwys mewn partneriaethau a byddid yn mynd â'r pwynt hwn yn ôl at y Cynulliad. Rhaid oedd newid y ffordd y mae adfywio cymunedol yn cael ei gyllido fel y gallai cymunedau fod yn sir y byddai'r cyllid yn parhau hyd nes y byddai prosiectau wedi eu cwblhau;
- gallai cyfyngiadau'r Parciau Cenedlaethol ar ddatblygu arwain at orddibyniaeth ar dwristiaeth. Dylid caniatáu datblygu sensitif, gyda chyllid Amcan 1 yn gefn iddo, yn y Parc Cenedlaethol er mwyn dod â chyfleoedd busnes a thai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

2.27 Gwahoddodd y Cadeirydd y cyflwynwyr i ymateb i'r pwyntiau a godwyd ac i grisialu'r prif faterion dan sylw.

2.28 Dywedodd **David Adamson** mai mynd i'r afael â thlodi trefol llethol yng Nghymru fu'r flaenoriaeth yn y gorffennol ond fod angen rhoi sylw i dlodi gwledig hefyd erbyn hyn. Yr oedd y Mynegrif Amddifadedd Lluosog yn well mesur na mesurau blaenorol ond yr oedd yn dal yn hanfodol adeiladu ar wybodaeth leol i ganfod y cymunedau y mae mwyaf o angen cymorth arnynt. Byddai cyllid prif ffrwd yn gwyro i gwrdd â phrosiectau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac yr oedd symud oddi wrth gystadleuaeth rhwng cymunedau, tuag at weithredu mwy strategol, yn hanfodol.

2.29 Dywedodd **Simon Pemberton** ei bod yn cymryd amser i sefydlu partneriaethau ac y dylai mecanweithiau cyllido gydnabod hynny. Yr oedd angen hyfforddiant ar gymunedau ac asiantaethau sector cyhoeddus ar weithio mewn partneriaeth. Deuai pob partner â sgiliau ac adnoddau gwahanol y dylid eu gwerthfawrogi i'r broses. Yr oedd egwyddor y traeanau, sef cyfraniadau cydradd gan y gymuned, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus, wedi'i sefydlu ond câi llai o sylw ei roi i gydbwysedd rhwng y rhywiau. Ar hyn o bryd, ceid mwy o fenywod nag o ddynion ar bartneriaethau yn aml.

2.30 Dywedodd **John Killion** fod pocedi o amddifadiad yn bodoli'n aml mewn ardaloedd cefnog, a bod angen canfod y rhain. Yn gyffredinol yr oedd pethau yn gwella yng Ngorllewin y Rhyl ond yr oedd pobl â chymwysterau yn dal i adael a châi eu sgiliau eu colli i'r gymuned. Yr oedd angen sefydlu trefn fonitro a mesurau rheoli i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

2.31 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr. Byddai'r negeseuon fod perchenogaeth gymunedol dros atebion a nawdd hirdymor yn hanfodol yn cael eu tywys yn ôl i'r Cynulliad.

**Eitem 3: Cofnodion y cyfarfod ar 14 Gorffennaf -** NWR 05-00(min)

3.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2000.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd y câi cyfarfod nesaf y Pwyllgor ei gynnal ym Mhorthmadog ddydd Gwener, 8 Rhagfyr. Os oedd y Pwyllgor yn cytuno y brif eitem ar yr agenda fyddai rhaglen gwella iechyd ranbarthol.

3.3 Cynigiwyd hefyd y dylid trafod datblygu Ysgol Plas Bron Dyffryn fel canolfan ragoriaeth ynghyd â mater ehangach gwasanaethau awtistiaeth yng Ngogledd Cymru.

3.4 Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yngln â thrydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru a bod ei ymateb i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Ceir copi o lythyr y Cadeirydd yn atodiad 4.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Cadeirydd y dylai ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn ei wahodd i'r cyfarfod ar 8 Rhagfyr yn wyneb ei gyfrifoldeb am gyd-drefnu polisi'r Cynulliad yng Ngogledd Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth** **Hydref 2000**

---

Atodiad 1

Image82.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Gwenda Thomas AC
Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

3 Tachwedd 2000

Annwyl Gwenda

**Lleihau torcyfraith**

Ysgrifennais atoch ar 1 Awst yngln â throseddu ac anhrefn.

Yn ei gyfarfod ddydd Gwener diwethaf, derbyniodd y Pwyllgor Rhanbarth nodyn (amgaeedig) oddi wrth swyddogion y Cynulliad yn rhestru'r ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar gael ar gyfer mesurau lleihau torcyfraith. Teimlai'r Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch eto i argymell bod hwn, a'r nodyn gan Chris Ruane AS ar gontractau ymddygiad derbyniol a anfonwyd gyda'm llythyr blaenorol, i gael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn y dyfodol.

Yn gywir

**Ann Jones**
Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Annex 2

Image92.gif (17926 bytes)

Image83.gif (32872 bytes)

## DEPRIVATION STATISTICS

| | |
|---|---|
| Economic Inactivity | 44.5% of 16+ population |
| 16/17 yearolds NOT in full time education | 69.8% / Wrexham Average 42.6% |
| No access to car | 45.8% |
| In receipt of Housing Benefit | 38.3% |
| Pensioners claiming Housing Benefit | 64.8% |
| Dependant children / no wage earners | 31.0% / Wrexham Average 18% |

### DEVELOPMENT MILESTONES

- October 1998 - Successful bids announced, recruitment process begins for Community Development Co-ordinator
- January 1999 - Interim Partnership Board meet for the first time
- February 1999 - Community Development Co-ordinator appointed
- June 1999 - Needs and Skills Audit undertaken
- September 1999 - The Interim Partnership Board design an appropriate structure to take forward the further development and consequent implementation of the Strategic Action Plan
- November 1999 - Working Groups meet for the first time to develop areas of the Strategic Action Plan

- January 2000 - Draft Strategic Action Plan available for consultation

- March 2000 - Strategic Action Plan agreed and submitted to The National Assembly for Wales

## OBJECTIVES

**Objective One is an overarching objective, an objective that will be addressed in all areas of the action plan, that is;**

To develop local community capacity and activity through, supporting new groups to develop, support existing in expanding their capacity and provision and encouraging maximum community involvement in developing All aspects of the Strategic Action Plan to combat Social Exclusion.

**Objective Two, predominantly economic focused, addressing issues of training and employment and attempting to reduce the barriers faced in accessing them, that is to;**

Improve access locally to adequate training and employment opportunities, through the development of a locally based training venue, employment of a training development officer, and by encouraging a local enterprise culture.

**Objective Three looks at the issues of children, youth and families aiming to;**

Provide a holistic approach to the issues faced by children, youth and families in the villages of Southsea and Brynteg, through partnership working and community involvement develop and consequently implement an action plan addressing the needs as identified through further research.

**Objective Four addresses the social issues of community life by aiming to;**

Improve the quality of life and the environment for all residents through addressing issues of Crime, Health, Housing and the Environment.

## DEVELOPMENT 2000

- Funding Bid submitted to develop a locally based Lifelong Learning Centre
- Consultation to inform children, youth and families action plan
- ESF Objective 3 bid for Capacity Building submitted
- Funding bid to develop a Community House submitted
- £6,000 secured to develop a community garden
- Sports and fitness consultation has begun
- Installation of 2 CCTV cameras
- Detached Youth Work Project
- Child Safety Scheme
- IT provision at Brynteg Library
- Small Grants Scheme
- Training Fund
- Young Persons seating/activity area
- Surestart kitchen equipment to aid parenting/healthy living support
- URBAN II Community Initiative

Image84.gif (8717 bytes)

Image85.gif (10097 bytes)

Annex 3

Image86.gif (16659 bytes)

## Targedu Datblygiad Economaidd Cymunedau

**Mae targedu ardaloedd daearyddol wedi bod yn rhan sylfaenol o'r broses o sicrhau Datblygiad Economaidd Cymunedau dan Flaenoriaeth 3 Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan Un.**

**A fydd yr un peth yn wir yn achos ‘Cymunedau’n Gyntaf’, neu unrhyw fentrau newydd sy’n cael eu datblygu gan y Cynulliad?**

**Os felly, a yw'n fwriad gan y Cynulliad i fod mor gul yn eu dull targedu?**

- Byddem yn dadlau bod y fethodoleg sy’n cael ei defnyddio yn y broses Amcan Un yn ddiffygiol, gan nad yw'n galluogi’r partneriaethau i ymateb i anghenion eu hardaloedd mwyaf difreintiedig. Yng Nghonwy, er enghraifft, mae’r dull sy’n cael ei ddefnyddio wedi creu trothwy o 2830 o bobl — sy’n golygu bod adnoddau’n cael eu targedu ar un ward yn unig. Yr oedd hyn yn llwyr anwybyddu’r ffaith fod yna bum ward arall, gyda chyfanswm poblogaeth o dros 18,000, a oedd wedi eu rhestru ymysg y 40% mwyaf difreintiedig yn yr ardal Amcan Un.

- Mae angen targedu daearyddol i ganfod yr ardaloedd sydd â'r anghenion mwyaf, a sicrhau bod cynnyrch prosiectau datblygu cymunedol yn cael eu mesur yn yr ardaloedd hynny. Yr hyn sy’n ddiffygiol yn ei gylch yw ei fod yn diffinio ardaloedd y prosiectau yn rhy dynn. Y mae rhai cynlluniau datblygu cymunedol sydd angen cyfraniad gan yr holl gymuned, neu’r Fwrdeistref Sirol gyfan mewn rhai achosion, er mwyn sicrhau bod prosiect yn effeithiol o ran cynhyrchu’r canlyniadau angenrheidiol yn yr ardaloedd sydd wedi eu targedu. Enghreifftiau o hyn yw undebau credyd a chynlluniau ailgylchu dodrefn, sy'n ddibynnol ar holl sectorau cymuned i sicrhau budd i'r grwp y maent yn eu targedu.

- Fe all prosiectau fethu â chynhyrchu’r canlyniadau a ddymunwyd pan fydd y Mynegrif Amddifadedd Lluosog yn cael ei gymryd fel ffigwr cyffredinol ar gyfer ward gyfan, heb edrych yn fanwl ar:-

    - Elfennau unigol y mynegrif. Er enghraifft, ward Tudno yn Llandudno yw’r 28 $^{ain}$ gwaethaf yng Nghymru o ran tlodi plant, a'r 77 $^{eg}$ gwaethaf o ran incwm, ond nid yw'n cael ei thargedu ar gyfer adfywio cymunedol dan Amcan Un.
    - Adnabod llecynnau o amddifadedd difrifol oddi mewn i wardiau. Er enghraifft, y mae un stad o dai sydd wedi ei nodi, dan y cynllun " Pobl Mewn Cymunedau", fel un sy’n dioddef ynysiad cymdeithasol wedi ei leoli mewn ward sydd heb ei chynnwys ar gyfer adfywio cymunedol dan Amcan Un.
    - Cymunedau annaearyddol o bobl sy’n rhannu’r un math o amddifadedd cymdeithasol, e.e. pobl anabl.

- Mae’n ymddangos bod mynediad i wasanaethau wedi negyddu’r ffigyrau sy’n cynrychioli’r problemau hyn yn y mynegrif lluosog cyffredinol; ond mae’n ymddangos bod yr un mynegrif mynediad wedi methu’n llwyr â sicrhau bod ardaloedd gwledig sy’n cynnwys llecynnau o amddifadedd difrifol, yn y Fwrdeistref Sirol, yn dod i’r golwg. Mae’n debyg mai’r rheswm am hyn yw’r ffaith fod y mynegrif mynediad wedi ei seilio ar bellter daearyddol o’r gwasanaeth, yn hytrach nag ar allu pobl i gael mynediad i’r gwasanaeth. Mae cymunedau sy’n ddaearyddol bell o wasanaethau yn ennill sgorau uchel yn y mynegrif hwn, hyd yn oed pan fydd ganddynt gysylltiadau cludiant cyhoeddus aml a dibynadwy efo’r gwasanaethau hynny - mae cymunedau ar hyd cymoedd De Cymru yn enghraifft o hyn. Mae argaeledd cludiant yn broblem fawr yn yr ardaloedd gwledig, ond y mae wedi cael ei anwybyddu wrth ddatblygu’r dangosydd hwn. Er bod yr adroddiad yn derbyn nad yw’r mynegrif mynediad wedi cael ei ddatblygu’n ddigonol eto, y mae’r mynegrif hwnnw wedi cael ei ddefnyddio ddwywaith wrth benderfynu ymhle y mae adfywio economaidd i ddigwydd dan Amcan Un.

- Y mae'n hollbwysig bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog, a bod y mynegrifau hyn yn cael eu hystyried yn ganllawiau ar gyfer targedu. Pan fydd diffygion yn dod i’r golwg mewn mynegrif, dylid ymchwilio iddynt ar fyrder, a dylai pwysoliad y mynegrif hwnnw gael ei addasu nes bydd ateb yn cael ei ganfod. Os byddwn yn disgwyl am rhwng pump a deng mlynedd cyn cynnal dadansoddiad arall, byddwn mewn perygl o seilio’r holl broses adfywio cymunedol ar wybodaeth wallus.

Pwyntiau i'w nodi:

- Y mae angen i dargedu daearyddol gymryd i ystyriaeth y gwahanol fathau o amddifadedd, yn hytrach na dibynnu ar un mynegrif lluosog.
- Wrth ddibynnu ar ddangosyddion, rhaid eu pwyso a’u mesur yn erbyn gwybodaeth ac anghenion lleol.
- Y mae angen i adfywio cymunedol gael ei symbylu gan y gymuned ei hun.
- Rhaid caniatáu’r defnydd o ddulliau cyfannol lle bo’r angen, er mwyn cynhyrchu’r canlyniadau gofynnol.
- Mae'n bwysig adnabod achosion amddifadedd yng nghefn gwlad yn glir; a phan fydd diffygion yn y mynegrif yn dod i’r amlwg, mae angen ailedrych ar y blaenoriaethau targedu.
- Mae angen adolygu'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog yn barhaol, gan nodi gwendidau a’u datrys.

Emlyn Williams
**Adran y Prif Weithredwr**

---

Atodiad 4

Image82.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Rhodri Morgan AC AS
Prif Ysgrifennydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

3 Tachwedd 2000

Annwyl Rhodri

**Trydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru**

Yn ei gyfarfod ddydd Gwener diwethaf cytunodd aelodau Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd y dylwn ysgrifennu atoch, yn rhinwedd eich swydd fel y Gweinidog sy’n gyfrifol am faterion Gogledd Cymru, yngln â thrydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru.

Nododd y Pwyllgor gyda chymeradwyaeth y cyfeiriad yn y cytundeb partneriaeth at drydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru a chred nad oes dichon gwireddu’r prosiect yn realistig ond gyda chymorth cyllid Amcan Un.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich ymateb mewn pryd i’r Pwyllgor ei drafod yn ei gyfarfod nesaf ar 8 fed Rhagfyr.

Yn gywir

**Ann Jones**
Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd